Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir, a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn ddarostyngedig i graffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

4 Mawrth 2019

Cafodd yr offerynnau canlynol eu hystyried yn flaenorol i'w sifftio yn unol â Rheol Sefydlog 21.3B. Yn y broses sifft, cytunodd y Pwyllgor ym mhob achos mai'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau oedd y weithdrefn penderfyniad negyddol. Bellach mae'r offerynnau yn ddarostyngedig i graffu arferol yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er bod gan yr holl offerynnau adroddiadau clir, maent hefyd yn cynnwys pwynt o ran rhinweddau i amlygu'r broses sifftio:

> **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn**

SL(5)325 – Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod "unrhyw ofyniad yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" yn adran 14A(5) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, yn lle "unrhyw ofyniad yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwysadwy".

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 4 Chwefror 2019

Fe'u gwnaed ar: 12 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 13 Chwefror 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1(2)

SL(5)329 – Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud o dan adran 11 a pharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ("**Rheoliadau 2006**") er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Gwnaeth Rheoliadau 2006 weithredu Cyfarwyddeb 2002/49/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 25 Mehefin 2002 sy'n ymwneud ag asesu a rheoli sŵn amgylcheddol. Mae'r Rheoliadau hyn yn cadw'r gofynion a osodwyd gan Reoliadau 2006 ond yn diwygio cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2002/49/EC ac yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol eraill.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 7 Ionawr 2019

Fe'u gwnaed ar: 11 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 13 Chwefror 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1

SL(5)330 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") sy'n ychwanegu at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/262 sy'n nodi rheolau yn unol â Chyfarwyddebau'r Cyngor

90/427/EEC a 2009/156/EC o ran dulliau adnabod equidae yng Nghymru, ac mae'n darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliad hwnnw.

Mae'r rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Gofynion sifftio wedi eu bodloni: 4 Chwefror 2019

Fe'u gwnaed ar: 11 Chwefror 2019

Fe'u gosodwyd ar: 13 Chwefror 2019

Yn dod i rym â: rheoliad 1(2)